Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Glantwymyn

Canolfan Glantwymyn
Glantwymyn
Machynlleth
Powys
SY20 8LX

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Glantwymyn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Glantwymyn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Heledd Glyn |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Ffion Ellis |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 32 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 22 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Iau: 9 – 3:30yp Dydd Gwener: 9 – 12yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma ei arolygiad cyntaf. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 10/12/2019 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/06/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Parhau i ddatblygu system arsylwi ac asesu effeithiol er mwyn cynllunio camau nesaf priodol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus, gan fwynhau cwmni eu ffrindiau a'r ymarferwyr. Maent yn gwneud dewisiadau yn hyderus ac yn gwerthfawrogi'r rhyddid i symud rhwng ardaloedd dysgu, gan ddewis yn annibynnol pa ystafell neu ardal chwarae i ymweld â hi. Mae bron bob un yn ymuno'n naturiol â grwpiau o ffrindiau ac yn defnyddio adnoddau'n fedrus, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol fel arbrofi gyda thoes, adeiladu Cennin Pedr gyda theils lliwgar, a chwarae rôl yn y caffi. Maent yn gyfforddus i ofyn am gymorth pan fo angen, er enghraifft wrth wisgo ffedog neu ddyfrio planhigion.

Mae bron pob plentyn yn setlo'n gyflym wrth gyrraedd, gan ddangos annibyniaeth wrth roi eu cotiau a bagiau ar eu bachau cyn ymuno'n frwdfrydig â sesiynau cofrestru a chanu. Maent yn teimlo'n ddiogel a chartrefol, gan fwynhau agosrwydd ymarferwyr a ffrindiau, yn enwedig wrth wrando ar straeon. Maent yn hyderus i alw enwau'r ymarferwyr ac yn dangos ymdeimlad cryf o berthyn. Mae llawer o blant yn gyfarwydd ag arferion dyddiol fel brwsio dannedd ac amser stori.

Mae llawer o blant yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu medrau cymdeithasol cadarn trwy fwynhau cwmni eu ffrindiau a dysgu cymryd tro. Er enghraifft, maent yn mwynhau amser byrbryd gyda'i gilydd, gan arsylwi a dysgu medrau newydd fel defnyddio cyllyll ac arllwys llaeth, ac yn ymfalchïo yn llwyddiant eu ffrindiau. Mae llawer o blant yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol trwy wrando'n astud ar brofiadau ei gilydd, er enghraifft pan fyddant yn rhannu straeon am fynd â thedi'r lleoliad adref. Trwy gydol eu chwarae, mae'r plant yn rhyngweithio'n naturiol a charedig â'u ffrindiau a gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu empathi a goddefgarwch at eraill.

Mae llawer o blant yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth lenwi ac arllwys cynwysyddion dŵr i olchi'r cwch. Maent yn hyderus i arbrofi ac yn mwynhau meistroli cyfarpar fel cwblhau jig-so neu ddefnyddio gefeiliau i gipio a symud 'pom poms' bach. Maent yn awyddus i geisio eto, gan ddangos agwedd gadarnhaol tuag at heriau. Maent yn mwynhau cyfleoedd i arbrofi'n greadigol trwy chwarae â thoes, gan greu bwystfilod bach a thrafod lliwiau'n gyffrous.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth fynd i'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo, brwsio dannedd a hunangofrestru heb gymorth. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau wrth ddefnyddio'r ffynnon ddŵr yn annibynnol a defnyddio adnoddau go iawn wrth helpu pobi cacennau.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn gyda'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu medrau iaith a chyfathrebu. Maent yn cymryd rhan mewn sgyrsiau ystyrlon sy'n gysylltiedig â'u profiadau dysgu, gan ddefnyddio iaith berthnasol a chyfoethog. Er enghraifft, mae trafodaethau am greu wal o gwmpas lafa yn dangos eu gallu i fynegi rhesymau'n glir ac yn fanwl.

Mae bron pob un yn gwrando'n astud ar newyddion, gan ddangos diddordeb gwirioneddol yn y cynnwys. Maent yn rhyngweithio'n briodol trwy gynnig sylwadau perthnasol a gofyn cwestiynau ystyrlon i'w cyfoedion ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, gyda'u hiaith lafar yn adlewyrchu acen a geirfa'r ardal. Mae hyn yn cyfrannu at ethos ieithyddol cryf y lleoliad.

Mae llawer o blant yn dangos dealltwriaeth gynyddol o symbolau ac yn dechrau deall pwrpas ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn mwynhau arbrofi â gwneud marciau pwrpasol wrth ysgrifennu cerdyn i Mam. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau ar labeli ac yn eu defnyddio'n annibynnol wrth gofrestru. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau, gan eu trin yn ofalus, troi tudalennau, a thrafod cynnwys y stori a'r cymeriadau yn fedrus. O ganlyniad, maent yn datblygu'r medrau sylfaenol sydd eu hangen i ddod yn ddarllenwyr hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn. Er enghraifft, maent yn defnyddio arian yn y caffi i dalu am eitemau ac yn cynnig newid o'r til i'w cwsmeriaid. Mae llawer yn cyfrif yn ddibynadwy hyd at ddeg ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn briodol wrth lenwi cynhwysydd gyda dŵr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio TGCh yn ystyrlon. Er enghraifft, maent yn defnyddio ffonau symudol yn hyderus i gael sgwrs gyda ffrindiau ac ymarferwyr. Maent yn datblygu medrau datrys problemau yn fedrus yn yr ardal adeiladu wrth greu pontydd cadarn ar gyfer y castell.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Maent yn dangos cryfder, cydbwysedd a gwydnwch wrth ddefnyddio offer mawr fel beiciau, ac yn datblygu medrau modur manwl yn fedrus trwy ddefnyddio offer adeiladu bach. Maent yn barod i gymryd risgiau rhesymol wrth gerdded ar hyd rhwystrau yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau creadigol da. Er enghraifft, maent yn creu modelau 3D gan ddangos balchder yn eu gwaith a mwynhad yn y broses greadigol.

Mae bron bob un yn datblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol yn hynod effeithiol. Maent yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae, gan ddangos lefel uchel o gydweithredu a chyd-ddealltwriaeth. Er enghraifft, wrth greu cacennau mwd yn y gegin awyr agored, maent yn defnyddio offer fel jygiau a sosbenni yn briodol ac yn fodlon rhannu'r adnoddau gyda'u cyfoedion.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae arweinwyr wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr, sy’n cael eu hadolygu’n flynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod gan ymarferwyr gwybodaeth gadarn a pherthnasol am ddiogelu plant. Maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau trwyadl y lleoliad mewn perthynas â hylendid ac iechyd a diogelwch, ac yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau a digwyddiadau.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ffordd o fyw iach trwy ddarparu byrbrydau maethlon a sicrhau bod plant yn cael digon o ymarfer corff ac awyr iach trwy weithgareddau awyr agored. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion presenoldeb priodol ac yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd sy’n cyfrannu at amgylchedd ddiogel. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd gofalgar a chefnogol â’r plant gan ryngweithio mewn ffordd gynnes, hamddenol a chyfeillgar. Mae hyn yn cyfrannu at greu awyrgylch gadarnhaol, hapus a bywiog yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn modelu ymddygiad cadarnhaol trwy fod yn bwyllog a pharchus sy’n cynnig esiampl dda i'r plant o sut i ryngweithio’n barchus ag eraill. Er enghraifft, maent yn diolch i’r plant am helpu tacluso ac yn eu canmol am aros eu tro. Mae polisi rheoli ymddygiad addas yn annog yr ymarferwyr i ddefnyddio technegau cadarnhaol fel esbonio ac arddangos. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu eu hunanreolaeth ac yn meithrin hunan-barch mewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol.

Mae’r lleoliad yn sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu’n effeithiol, gan gynnwys darparu canllawiau a chefnogaeth briodol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae systemau cryf ar waith i gefnogi'r plant a'u teuluoedd sy’n galluogi’r ymarferwyr i adnabod y plant yn eithriadol o dda. Mae ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol ag asiantaethau allanol, er enghraifft athrawon ymgynghorol, ac yn gweithredu’n briodol ar gyngor a dderbynnir. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad.

Mae ymarferwyr yn ymateb yn sensitif ac effeithiol iawn i anghenion unigol plant gan chwarae'n ystyrlon gyda nhw er mwyn cefnogi ac ehangu eu dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio iaith gyfoethog wrth archwilio llyfrau, trafod syniadau a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o weithgareddau a phrofiadau perthnasol drwy ystyried hoff deganau, offer a diddordebau'r plant. Maent yn gwerthfawrogi gwerth chwarae estynedig pan fydd plant yn dangos diddordeb dwfn mewn gweithgaredd penodol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac maent yn ystyried llais y plentyn wrth gynllunio profiadau pwrpasol ar draws y lleoliad. Maent yn cynnig cydbwysedd effeithiol rhwng arwain y dysgu a dilyn arweiniad y plant. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn cael gwneud dewisiadau ystyrlon ynghylch eu dysgu ac yn datblygu eu medrau yn effeithiol drwy brofiadau arwahanol pwrpasol wedi eu teilwra iddynt. Er enghraifft, wrth i blant ddangos hyder yn cyfateb nifer o eitemau i rifau hyd ddeg, maent yn eu hannog i gyfrif tu hwnt i ddeg.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynnig amgylchedd dysgu cyfoethog a phwrpasol, tu mewn a thu allan, sy’n galluogi’r dysgu yn effeithiol iawn. Mae ymarferwyr yn darparu ystod werthfawr o adnoddau dilys sy’n sicrhau diddordeb ac ymgysylltiad plant yn eu profiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn darparu byrddau torri gyda chyllyll, blodau, ffrwythau a pherlysiau a blannwyd gan y plant eu hunain, fel y gallant greu cacennau yn y gegin fwd. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i’r plant brofi rhyfeddod ym myd natur, er enghraifft drwy ddefnyddio chwyddwydrau i arsylwi ar lindys yn eu cynefin. O ganlyniad, mae plant yn datblygu dealltwriaeth o’r angen i drin pethau byw â gofal, parch a phryder.

Mae'r lleoliad yn rhan ganolog o'r gymuned leol. Mae ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i blant ymweld â'r gymuned, gan feithrin ymdeimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, maent yn ymweld â’r swyddfa bost i fynegi eu diolch i’r postfeistr am wasanaeth gwerthfawr i’r gymuned. Mae’r lleoliad yn hyrwyddo dealltwriaeth ddiwylliannol drwy ddarparu llyfrau a deunyddiau cynrychiadol megis dolis, ac yn cynllunio profiadau amlddiwylliannol ystyrlon i adlewyrchu amrywiaeth y byd. Trwy'r profiadau hyn, mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth o rolau o fewn y gymuned a thu hwnt gan feithrin empathi a chysylltiad â phobl a lleoedd.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dilys ac ystyrlon sy’n annog datblygiad cyffredinol plant a’u cynnydd yn effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol a hunanddibyniaeth trwy ddefnyddio cyllyll i dorri ffrwythau a lledaenu menyn ar dost yn ystod amser byrbryd. Mae ymarferwyr yn parchu ac yn arddangos marcio cynnar y plant yn rheolaidd ac yn cynnig cyfleoedd cyson i blant drin llyfrau, gwrando ar straeon a thrafod. Mae hyn yn cefnogi llythrennedd cynnar plant yn effeithiol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd yn gryf, gyda chyfleoedd ystyrlon ym mhob ardal, megis defnyddio arian yn y caffi, cloriannu yn y gegin fwd, mesur hylif, chwarae gemau patrymau a darllen straeon rhif. Mae ymarferwyr yn annog plant i gyfrif gwrthrychau yn gyson yn eu chwarae digymell sy’n datblygu eu medrau rhifedd yn llwydiannus.

Mae ymarferwyr yn chwarae ochr yn ochr â'r plant yn naturiol ac yn manteisio ar hyn i ymestyn eu geirfa. Maent yn defnyddio holi i herio'r plant yn feddylgar ac i gynnig adborth adeiladol. Mae hyn yn annog plant i rannu eu syniadau ac egluro eu meddyliau, er enghraifft wrth adeiladu pontydd i efelychu lluniau. Yn yr arfer orau, mae'r ymarferwyr yn holi'n fedrus ac yn sensitif, gan annog y plant i ymestyn eu hymatebion a mynegi eu hunain yn llawn ac yn hyderus. Maent yn darparu adborth effeithiol iddynt, sy'n cynnig awgrymiadau am y modd mwyaf effeithiol i ddatblygu eu syniadau.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn dechrau cadw arsylwadau pwrpasol am gynnydd plant ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda rhieni a gwarchodwyr, mewn modd ffurfiol ac anffurfiol. Er enghraifft, maent yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni drwy sgyrsiau dyddiol, rhannu lluniau ar system ddigidol, a threfnu cyfarfodydd ac adroddiadau diwedd blwyddyn. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio arsylwadau yn bwrpasol er mwyn cynllunio ar gyfer camau nesaf datblygu medrau'r plant.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu a chwarae o safon uchel sydd yn ddiogel ac yn ysgogol, gan gynnig cyfleoedd cyfoethog i blant archwilio tu mewn a thu allan i'r adeilad. Maent yn cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Pan mae ymarferwyr yn canfod unrhyw beryglon, mae arweinwyr yn ymateb yn brydlon ac yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau yn cael eu glanhau er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr addas. Maent yn cadw gwiriadau cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae goruchwyliaeth effeithiol yn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n dda ar bob adeg.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar a chartrefol, gyda digon o le i'r plant symud o gwmpas yn rhwydd ac archwilio'n hyderus. Mae arweinwyr yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn drwy arddangos marciau cynnar y plant a lluniau o'u teuluoedd ar y waliau. Mae'r lleoliad yn diweddaru byrddau gwybodaeth sy'n darparu gwybodaeth glir a chynhwysfawr am ymarferwyr, polisïau a gweithdrefnau diogelu. Mae ymarferwyr wedi trefnu'r ystafell chwarae yn bwrpasol gyda mannau dysgu penodol sy'n hybu datblygiad y plant yn dda ac yn cynnig profiadau chwarae ystyrlon. Er enghraifft, mae ardaloedd wedi eu diffinio'n glir ar gyfer adeiladu, peintio a mwynhau llyfrau. Mae'r lleoliad yn cynnig amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau i hybu dealltwriaeth plant o fywyd go iawn ac yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd yn yr awyr agored i blant fwynhau chwarae dŵr, dringo ac ymlacio. Mae arweinwyr yn gwneud dewisiadau ystyrlon wrth ddewis celfi gan sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion y plant. Er enghraifft, mae'r toiledau'n cynnwys sinciau a thoiledau isel sy'n cefnogi annibyniaeth y plant yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol, cyffrous ac o ansawdd da ar gael i'r plant. Mae'r rhain yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i wneud dewisiadau'n annibynnol, sy'n meithrin eu hyder a'u hunanreolaeth. Mae gan yr ardaloedd chwarae ddigon o adnoddau i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cynnig gweithgareddau ysgogol a gwerthfawr i'r plant.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn llwyddo i feithrin ethos cartrefol lle mae plant yn ffynnu mewn amgylchedd cyfoethog a chynhaliol. Mae'r berthynas rhwng arweinwyr, ymarferwyr a'r plant yn seiliedig ar barch, ymddiriedaeth a chefnogaeth, sy'n creu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae arweinwyr yn rhannu gwybodaeth berthnasol yn effeithiol gyda'r pwyllgor rheoli, sy'n sicrhau cefnogaeth gadarn a pharhau. Mae'r cydweithio hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at wireddu'r datganiad o ddiben ac yn atgyfnerthu'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn sicrhau bod cymwysterau staff yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae arweinwyr newydd yn datblygu hyfedredd yn eu rolau newydd trwy gefnogaeth gadarn y pwyllgor ac arweinwyr profiadol. Maent yn sicrhau bod staff yn elwa ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol priodol sy'n meithrin medrau craidd megis y Gymraeg, diogelu ac iechyd a lles yn dda. Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd buddiol i staff drafod eu datblygiad, derbyn cefnogaeth amserol ac adnabod camau i wella eu harfer. Mae hyn yn cyfrannu at ethos tîm cryf y lleoliad.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad a meysydd ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol â'r pwyllgor i flaenoriaethu materion i'w datblygu ac yn rhannu cynlluniau gydag ymarferwyr. Mae hyn yn arwain at welliant yn y profiadau a gynigir ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant. Maent yn gwneud defnydd da o grantiau i ddatblygu'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth fuddsoddi mewn offer garddio i wella'r cyfleoedd dysgu dilys yn yr awyr agored.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas gadarnhaol ac agored â rhieni drwy gyfleoedd ystyrlon i gydweithio, rhannu gwybodaeth a chymryd rhan ym mywyd y lleoliad. Er enghraifft, trefnwyd i rieni sy'n ffermwyr ddod â defaid i'r lleoliad, gan roi profiad dysgu bywyd go iawn i'r plant. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn i gyfrannu at ddatblygiad eu plant a bod yn rhan o gymuned ehangach y lleoliad.

Mae'r lleoliad wedi datblygu perthynas gadarn â'r ysgol gynradd gyfagos ac mae ganddynt brosesau pontio cadarn. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n esmwyth i gam nesaf eu haddysg. Mae arweinwyr yn gwahodd ymwelwyr i weithio gyda'r plant ac yn trefnu teithiau gwerthfawr i'r gymuned megis ymweld â'r heddlu i ddysgu am sut mae pobl yn ein helpu. O ganlyniad, mae plant yn datblygu ymdeimlad o berthyn i'w cymuned leol ac yn meithrin medrau cymdeithasol a phersonol gwerthfawr.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  12/08/2025